“Rhaid lledaenu’r neges am bwysigrwydd iechyd meddwl” : Clonc360

Llun: Endaf Griffiths

Cynhaliodd Ffermwyr Ifanc Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro ddigwyddiad iechyd meddwl yn ddiweddar.

Daeth tyrfa dda o tua 150 o bobol ynghyd er mwyn gwrando ar banel o siaradwyr a oedd yn cynnwys y cyflwynydd teledu, ffermwr ac actor, Alun Elidyr; yr Hybarch Eileen Davies o Tir Dewi; ac Emma Picton-Jones o’r DPJ Foundation. Cadeiriwyd y cyfan gan y cyflwynydd teledu a’r ffarmwraig, Meinir Howells.

Cynhaliwyd ocsiwn ar y noson hefyd, ac ymhlith yr eitemau oedd pêl rygbi wedi’i harwyddo gan aelodau o garfan Cymru a chomisiwn am englyn gan y Prifardd Idris Reynolds. Llwyddwyd i godi swm o dros £2,400, a fydd yn cael ei rannu rhwng Tir Dewi a’r DPJ Foundation.

[Darllen rhagor : Bro360]

[Darllen rhagor am iechyd meddwl a’r byd amaeth ar meddwl.org]